Parents Protect!

Gyda'n gilydd gallwn atal cam-drin plant yn rhywiol

Help i ddeall datblygiad rhywiol plant dan 5 oed

Mae gwybod sut i adnabod ac ymateb i ymddygiad sy'n addas i blant dan 5 oed yn eich helpu i gynorthwyo datblygiad ymddygiad rhywiol y plant a'u hamddiffyn iach ac amddiffyn plant rhag niwed neu gamdriniaeth.

Mae pob un ohonom yn gwybod bod plant yn mynd trwy wahanol gamau datblygiad wrth iddyn nhw dyfu. Mae pob plentyn yn unigolyn a bydd yn datblygu yn ei ffordd ei hun. Fodd bynnag, mae yna fathau o ymddygiad sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol fel rhai arferol ar gyfer oed a cham datblygiadol y plentyn.

Nod y daflen yma yw eich helpu fel rhiant neu ofalwr trwy roi cyfarwyddyd a gwybodaeth i chi er mwyn i chi ddeall rhagor am y gwahaniaethau rhwng y darganfod rhywiol iach a disgwyliedig sy'n nodweddu datblygiad plant dan 5, a'r ymddygiad amrhiodol sy'n gallu niweidio eraill neu wneud plentyn yn fwy agored i beryglon.

I blant o'r oedran yma, mae darganfod a chwarae rhywiol iach a disgwyliedig fel rhan o'u datblygiad yn rhan o broses o gasglu gwybodaeth. Dyma lle mae'ch plentyn yn ceisio casglu gwybodaeth amdano'i hun a'r byd.

Er bod y rhan fwyaf o ymddygiadau rhywiol ymhlith plant cyn oed ysgol yn addas ar gyfer eu hoed, mae rhai mathau o ymddygiad yn destun pryder. Mae llinell gymorth Stop it Now! sef 0808 1000 900, yno i'ch helpu chi i allu cynnig cymorth a chefnogaeth wrth amddiffyn a chefnogi'r plant yma.

www.parentsprotect.co.uk

Llinell Gymorth Stop it Now!
Am Ddim a Chyfrinachol
0808 1000 900

stop it now! UK & Ireland
Together we can prevent child sexual abuse

Adnabod ymddygiad plant dan 5

Rydym wedi defnyddio fframwaith goleuadau traffig i'ch helpu i benderfynu a yw'r ymddygiad yn WYRDD, yn AMBR ynteu'n GOCH

Mae'r ymddygiad yma'n naturiol ac yn ddisgwyliedig

'Dyw hyn ddim yn golygu y byddech chi am weld yr ymddygiad yn parhau, ond mae'n rhoi cyfle i sgwrsio, dysgu ac esbonio beth sy'n addas.

- Ceisio cyffwrdd neu fod yn chwilfrydig am organau rhyw plant eraill
- Ceisio cyffwrdd neu fod yn chwilfrydig am fronnau, tinau neu organau rhyw oedolion
- Gemau chwarae rôl e.e. mami a dadi, meddygon a nyrsys
- Diddordeb yn rhannau'r corff a'r hyn a wnânt
- Cyffwrdd â'i organau rhyw ei hun neu eu rhwbio wrth gael newid ei glwt, syrthio i gysgu neu pan fydd dan bwysau, yn ofnus neu wedi'i gyffroi
- Edrych ar y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod, bechgyn a merched
- Holi am organau rhyw, bronnau, babanod
- Cael codiad
- Hoffi bod yn noeth
- Diddordeb mewn gwylio pobl yn y toiled
- Diddordeb mewn cael/ymolchi baban
- Rhoi rhywbeth yn yr organau rhyw neu'r rectwm oherwydd chwilfrydedd neu er mwyn darganfod

Gallai'r ymddygiad yma fod yn destun pryder ac os yw'n parhau, gallai fod y tu hwnt i ffiniau ymddygiad diogel ac iach

Mae angen ymateb oedolyn amddiffynnol, cefnogaeth ychwanegol a monitro agos.

- Parhau i gyffwrdd â'i organau rhyw neu eu rhwbio'n gyhoeddus, ar ôl i chi ddweud wrtho sawl tro am beidio â gwneud hynny
- Parhau i ofyn am y gwahaniaethau rhwng organau rhyw hyd yn oed ar ôl i chi ateb pob cwestiwn
- Cyffwrdd ag organau rhyw a bronnau oedolion nad ydynt yn aelodau o'r teulu, a gofyn i eraill gyffwrdd ag ef
- Y diddordeb mewn gwylio pobl yn y toiled ddim yn pallu
- Rhoi rhywbeth yn ei organau rhyw neu ei rectwm ei hun neu rywun arall, hyd yn oed ar ôl i rywun ddweud 'na'
- Rhwbio yn erbyn plant eraill naill a'i noeth neu wedi'i wisgo
- Tynnu trôns neu drowsus plant eraill i lawr (neu godi sgertiau) yn erbyn eu hewyllys

Mae'r ymddygiad yma y tu hwnt i ffiniau'r hyn sy'n iach ac yn ddiogel

Gallai ymddygiad o'r fath fod yn arwydd bod angen amddiffyniad a chefnogaeth ar unwaith gan weithiwr gofal plant proffesiynol, e.e. ymwelydd iechyd, Meddyg Teulu neu weithiwr cymdeithasol. Fel cam cyntaf, gallech ddefnyddio llinell gymorth Stop it Now! i gael cyngor a chyfarwyddyd. Ffoniwch 0808 1000 900.

- Cyffwrdd â'i organau rhyw ei hun neu eu rhwbio, yn gyhoeddus neu mewn preifat, yn lle mwynhau gweithgareddau arferol plentyndod
- Chwarae rolau gwrywaidd neu mewn ffordd ddig, trist neu ymosodol,
- Mynegi ofn a/neu ffieidd-dod ynghylch pobl o'r un rhyw ag ef neu'r rhyw arall
- Cyffwrdd â rhannau preifat oedolion yn ddistaw bach
- Gorfodi neu ddefnyddio grym mewn gemau chwarae rôl gyda phlant eraill
- Rhoi rhywbeth yn ei organau rhyw neu ei rectwm ei hun neu blentyn arall, hyd yn oed os yw'n boenus
- Cyfathrach rywiol ffug neu go iawn yn noeth, neu ryw drwy'r geg
- Gwneud unrhyw un o'r uchod yn y dirgel

Ymateb i ymddygiad a welir mewn plant dan 5 oed

Isod rydym wedi cynnig enghreifftiau o sefyllfaoedd sy'n nodweddu categoriau ymddygiad Gwyrdd, Ambr a Choch. Rydym hefyd wedi cynnig ambell awgrym sut y gallech ymateb i ymddygiad o'r fath. Canllaw yn unig yw hwn, ac mae'n bwysig cofio hyd yn oed os yw ymddygiad yn y categori Gwyrdd, 'dyw hyn ddim yn golygu y dylai'r ymddygiad gael ei annog. Mae pob ymddygiad yn cynnig cyfle i sgwrsio â'r plentyn ynglŷn â'i gadw ef ei hun ac eraill yn ddiogel, a rhoi gwybod iddo eich bod chi'n rhywun sy'n fodlon gwrando. Mae'n bwysig ymateb yn ddigyffro.

Mae bachgen 3 oed a merch 3 oed yn chwarae yn y tŷ bach twt yn yr ardd ac yn dangos eu dillad isaf i'w gilydd.

Ymateb i'r ymddygiad yma:

- Esbonio bod rhai rhannau o'r corff yn breifat
- Tynnu eu sylw oddi ar y sefyllfa trwy awgrymu gweithgaredd gwahanol

Mae bachgen 4 oed a merch 4 oed yn gorwedd ar lawr y llofft gyda'r bachgen ar ben y ferch. Maent wedi'u gwisgo ac mae'r ferch yn dweud eu bod yn chwarae 'mami a dadi'. Dyma'r tro cyntaf y mae'r naill a'r llall wedi'u darganfod yn ymddwyn fel hyn.

Ymateb i'r ymddygiad yma:

- Disgrifio'r ymddygiad di-eisiau'n eglur
- Esbonio i'r plant nad yw'r math yma o ymddygiad yn dderbyniol
- Tynnu eu sylw oddi ar y sefyllfa trwy awgrymu gweithgaredd gwahanol

Mae bachgen 4 oed yn gyson yn ceisio gorfodi plant eraill i gyffwrdd â'i organau rhyw tra byddant yn chwarae, gan fynnu mewn ffordd ymsodol eu bod yn cyffwrdd â'i rannau preifat. Mae hefyd i'w weld yn aml yn rhwbio'i organau rhyw ei hun nes eu bod yn boenus.

Ymateb i'r ymddygiad yma:

- Disgrifio'r ymddygiad iddo'n eglur
- Pwysleisio nad yw ei ymddygiad yn dderbyniol a'i fod yn effeithio ar bobl eraill
- Gwahardd yr ymddygiad
- Ffonio llinell gymorthStop it Now! ar 0808 1000 900 i gael cyngor a chyfarwyddyd
- Ystyried ceisio cyngor a chymorth oddi wrth weithiwr proffesiynol gofal plant, e.e. ymwelydd iechyd, Meddyg Teulu neu weithiwr cymdeithasol

Mae rhagor o wybodaeth ynglˆyn â sut i amddiffyn plant rhag niwed a chamdriniaeth rywiol ar gael ar ein gwefan: **www.stopitnow.org.uk** Os oes gennych amheuaeth unrhyw dro, ceisiwch gyngor trwy ffonio llinell gymorth **Stop it Now! ar 0808 1000 900.** I gael rhagor o wybodaeth am ddatblygiad rhywiol, addysg rhyw ac ymddygiad rhywiol iach, ewch i:

Parents Protect yn **www.parentsprotect.co.uk**
Mae'r deunyddiau hyn wedi'u cynllunio ar gyfer rhieni, gofalwyr ac oedolion amddiffynnol eraill. Ar gyfer deunyddiau a gynlluniwyd ar gyfer eu defnyddio gyda a chan weithwyr proffesiynol, gweler Brook:
www.brook.org.uk/index.php/traffic-lights

Mae'r daflen hon gan y Lucy Faithfull Foundation, Help i ddeall dahtblygiad rhywiol plant 5 - 11 oed, wedi'i seilio ar gyfarwyddyd goleuadau traffig a ddatblygwyd gan Family Planning Queensland, Awstralia ac addaswyd hi gyda chaniatâd i'w defnyddio yn y DU ac Iwerddon.
Family Planning Queensland. (2012). Traffic Lights guide to sexual behavious in children and young people: identify, understand and respond. Brisbane: Family Planning Queensland, Australia. Adferwyd ofrom www.fpq.com.au/publications/fsBrochures/Br_Sexual_Behaviours.php

www.fpw.com.au

© Family Planning Queensland 2012. Defnyddir gyda chaniatâd.

Cynhyrchwyd y daflen hon gyda chymorth oddi wrth Martin Roberts Children's Fund.
Elusen Gofrestredig Rhif 1013025 yw'r Lucy Faithfull Foundation, ac mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2729957. Swyddfa. Gofrfestredig, Bordesley Hall, The Holloway, Alvechurch, Birmingham.